

PERYGLON CEMEGOL, BIOLEGOL NEU RADIOLEGOL I FERCHED BEICHIQG A MAMAU NEWYDD



Gall peryglon cemegol, biolegol a radiolegol beri risg iechyd ar ddechrau beichiogrwydd. Nod y cyngor yn y daflen hon yw cefnogi ie-chyd babanod newydd, neu fabanod sydd heb eu geni eto

PERYGLON CEMEGOL:

Gallent dreiddio i'r corff drwy anadlu, amlyncu, pigi-adau neu amsugniad drwy'r croen. Mae rhai sylwed-dau yn hynod beryglus i rywun sy'n ceisio beichiogi neu i ferched beichiog a mamau newydd. Mae'r rhain yn cynnwys carsinogenau, teratogenau a mwtagenau a chânt eu hadnabod gan yr ymadroddion risg canlynol ar daflenni diogelwch cemegol:

H351 (R40)	Amheuir o achosi cancer
H350 (R45)	Gall achosi cancer
H340 (R46)	Gall achosi niwed genetig etifeddadwy
H350i (R49)	Gall mewnanadlu'r sylwedd achosi cancer
H360F (R60)	Gall amharu ar ffrwythlondeb
H360D (R61)	Gall achosi niwed i fabanod heb eu geni
H361f (R62)	Risg posibl y gall amharu ar ffrwythlondeb
H361d (R63)	Niwed posibl i fabanod heb eu geni
H362 (R64)	Gall achosi niwed i fabanod sy'n cael eu bwydo ar y fron

Mae'n hanfodol rheoli'r cemegau hyn yn ofalus. Bydd asesiad risg yn sicrhau diogelwch merched beichiog a mamau newydd sy'n gweithio mewn labordai lle caiff cemegau tebyg eu defnyddio.

PERYGLON BIOLEGOL:

Dosbarthir peryglon biolegol gan yr HSE i 4 categori - grŵp perygl 4 yw'r mwyaf peryglus. Ym Mhrifysgol Bangor, caiff organebau grŵp perygl 2 eu defnyddio mewn sawl labordy dysgu ac ymchwil. Mae rhai o'r organebau grŵp perygl 2 hyn yn risg i ferched beichiog, e.e. listeria sydd mewn ambell i gaws heb ei basteureiddio.





PELYDRIAD:

Prif ffynhonnell pelydriad ïonig yw'r defnydd o beiriannau pelydr-x a'r defnydd o ffynonellau pelydredd agored. Rhaid i chi ddweud wrth y Swyddog Diogelwch Pelydriad cyn gynted ag y gwyddoch chi eich bod yn feichiog fel bod modd gosod rheolaeth ychwanegol i warchod eich plentyn os bydd angen.

Daw pelydriad anionig o ffynonellau a laserau uwchfioled ac isgoch. Nid yw'r rhain yn peri risg uchel iawn i ferched beichiog nag ychwaith i famau sy'n bwydo ar y fron. Ffynonellau eraill o belydriad anionig yw meysydd a thonnau electromagnetig. Ni ddylid dod i gysylltiad â meysydd electrïg a magnetig y tu hwnt i'r terfynau a osodwyd gan yr 'Adnoddau Natu-riol Cymru'.



GWYBODAETH BELLACH:

Mae'r cysylltiadau canlynol yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol. Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon cysylltwch â Michele Lake neu Dr John Latchford:

1. Iechyd a Diogelwch Bangor - www.bangor.ac.uk/hss
2. Michele Lake, Ymarferwr Iechyd Galwedigaethol - 01248 382575 / estyniad 2575
3. Dr John Latchford, Swyddog Diogelwch Pelydriad a Diogelwch Biolegol y Brifysgol 01248 382524 / estyniad 2524
4. Llawlyfr i ferched beichiog a mamau newydd (Gwefan HSS)



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Mae risg posibl wrth weithio gydag anifeiliaid os yw'r anifail yn dioddef o haint y gellir ei drosglwyddo i bobl. Mae rhai o'r heintiau hyn, megis chlamydia psittaci, yn risg i ferched beichiog. O ganlyniad, ni ddylai merched beichiog weithio gyda defaid beichiog, ac mae'n rhaid gwneud asesiad risg am yr holl waith sy'n ymwneud ag anifeiliaid neu mewn labordai lle caiff organebau grŵp perygl 2 eu defnyddio.

